

# Cymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu

Deunyddiau cefnogi ar gyfer prosbectysau darparwyr

Amcangyfrifir bod **13,000 o gwmnïau** yn gweithio yn y sector, sy'n cyflogi mwy na **130,000 o bobl** ac sy'n cyfrannu **6.5% at Werth Ychwanegol Gros y wlad.**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad i adeiladu'r dyfodol | 4 |
| Cyflwyniad i'r cymwysterau | 5 |
| Cymwysterau yn barod i'w dysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2021 | 6 |
| Cynnwys y cymwysterau yn eich prosbectws | 7 |
| Geiriad y gellid ei ddefnyddio mewn prosbectws | 8 |
| Cynnydd dysgwyr | 9 |
| Geirda | 10 |
| Disgrifio'r cymwysterau | 11 |
| Cysylltwch | 17 |




# Cyflwyniad i adeiladu'r dyfodol

## Adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yw un o'r sectorau cyflogaeth pwysicaf yng Nghymru.

Adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yw un o'r sectorau cyflogaeth pwysicaf yng Nghymru. Amcangyfrifir bod 13,000 o gwmnïau yn gweithio yn y sector, sy'n cyflogi mwy na 130,000 o bobl ac sy'n cyfrannu 6.5% at Werth Ychwanegol Gros y wlad.

Dyna pam y mae Cymwysterau Cymru wedi'i ddewis ar gyfer adolygiad pwysig o'r cymwysterau sydd ar gael yn y diwydiant.

Cymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys y rhai ar gyfer adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, yw 90% o'r cymwysterau rheoledig sydd ar gael yng Nghymru. Felly, mae angen iddynt adlewyrchu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr.

Diben yr adolygiad oedd asesu'r cymwysterau sydd ar gael yn y sector a phenderfynu a oedd angen eu newid mewn unrhyw ffordd. Roedd rhan fawr o'r gwaith hwn yn cynnwys cyfarfod a sgwrsio â chyflogwyr mawr
a bach ledled Cymru, yn ogystal â'r rhai sy'n dysgu'r cymwysterau mewn ysgolion a cholegau, i gael gwybod beth sydd ei angen arnynt.

Hoffem ddiolch i'n holl randdeiliaid yn y sector am y gefnogaeth maent wedi'i rhoi drwy'r adolygiad o'r sector a'r rhan y maent yn ei chwarae o ran helpu i arwain y ffordd i sicrhau bod y cymwysterau hyn yn diwallu anghenion cyflogwyr, dysgwyr a chanolfannau darparu ledled Cymru.

Diolch yn arbennig i Gymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain a'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid am eu harweiniad doeth a'u llywio gofalus. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt.



# Cyflwyniad i'r cymwysterau

Mae Cymwysterau Cymru wedi gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol y diwydiant drwy benodi City & Guilds ac EAL i gydweithio ar ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu, y gellir eu hariannu, yng Nghymru. Rydym yn cynnig amrywiaeth o grefftau, pob un ohonynt yn rhoi cyfle i symud ymlaen yn y sector Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu.

Mae'r cymwysterau hyn yn ceisio bod yn addas ar gyfer y dyfodol gan eu bod yn ymgorffori sgiliau sydd eu hangen ar y sector yn awr ac yn y dyfodol. Bydd y cymwysterau newydd yn dechrau helpu i symleiddio'r ddarpariaeth gymhleth o fwy na 400 o gymwysterau sydd ar gael yn y sector.

## Beth yw eich dewisiadau o ran gyrfa?

Yn ogystal â galwedigaethau fel plastrwr, trydanwr, gosodwr brics, plymwr, teilsiwr, saer pensaernïol a saer safle, gallech fod yn wybodus am dueddiadau technolegau cartrefi clyfar yn y dyfodol ac adeiladu cynaliadwy, fel paneli solar ac adeiladau di-garbon. Mae sgiliau a thechnegau traddodiadol sy'n cael eu defnyddio ar adeiladau treftadaeth wedi cael eu cynnwys yn y cymwysterau hyn i lenwi'r bylchau lle mae mawr angen sgiliau ac i gynnig mwy o opsiynau i chi wrth i chi ddechrau ar eich gyrfa yn y diwydiant amrywiol a chyffrous hwn.

## Ar gyfer pwy mae'r cymwysterau?

Maent yn addas ar gyfer:

- dysgwyr 16+ oed sy'n gweithio eisoes neu sy'n bwriadu gweithio yn y sector adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu
- gweithwyr safle sydd eisiau ehangu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u sgiliau yn y sector yn fwy cyffredinol.

Bydd angen i chi fod wedi cyflawni Lefel 2 Sgiliau Hanfodol Saesneg a Mathemateg (neu gymhwyster cyfatebol) neu fod yn gweithio tuag at hynny. Nid oes gofynion mynediad ffurfiol eraill ar gyfer y cymwysterau hyn.



# Cymwysterau yn barod i'w dysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2021

### Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

- Gweithio gyda brics, blocs a cherrig
- Galwedigaethau crefftau coed
- Peintio ac addurno
- Plastro a systemau mewnol
- Plymio a gwresogi domestig
- Galwedigaethau toi
- Teilsio waliau a lloriau
- Systemau ac offer electro-dechnegol
- Gweithrediadau adeiladu a gwasanaethau peirianneg sifil
- Gweithrediadau offer

### Cynnydd mewn Adeiladu (Lefel 2)

- Gosod Brics
- Gwaith Coed Pensaernïol
- Gwaith Coed ar y Safle
- Gosod Fframiau Pren
- Peintio ac Addurno
- Plastro Soled
- Töwr - Llechi a Theils
- Leinio Sych – Gosod
- Gweithrediadau Adeiladu – Adeiladu Cyffredinol

### Cynnydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

- Gosod Systemau ac Offer Electro-dechnegol
- Plymio a Gwresogi

### Adeiladu Lefel 3 – Cymhwyster prentisiaeth

- Gosod brics
- Gwaith coed pensaernïol
- Gwaith coed ar y safle
- Gosod fframiau pren
- Peintio ac addurno
- Teilsio waliau a lloriau
- Plastro
- Gwaith toi - llechi a theils
- Gweithrediadau offer
- Leinio sych
- Gweithrediadau sifil - gweithiwr tir

### Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 - Cymhwyster prentisiaeth

- Gosod Offer Gwresogi ac Awyru
- Gwaith Crefft Gwresogi ac Awyru
- Plymio a Gwresogi
- Gosod Offer Electro-dechnegol

## Manteision eraill cymryd y cymwysterau hyn:

- Bydd y cymwysterau'n rhoi'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt i'ch gwneud yn fwy cyflogadwy
- Bydd gennych adnoddau i'ch cefnogi drwy eich cwrs i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y Cymwysterau
- Wrth i chi symud drwy'r fframwaith cymwysterau, maent yn mabwysiadu dull symlach o asesu fel bod llai o ddyblygu asesiadau
- Mae yna lwybrau cynnydd clir er mwyn i chi allu gweld eich llwybr ymlaen at astudio pellach neu i mewn i waith
- Bydd gennych ddewis o adnoddau dysgu ac asesiadau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg)

# Cynnwys y cymwysterau yn eich prosbectws

Gallwch ddewis cynnwys cymaint (neu gyn lleied) o wybodaeth am yr ystod o gymwysterau yn eich prosbectws ag y dymunwch. I gael gwybodaeth fanwl am bob un o'n cymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu, ewch i

skillsforwaleswales/cy/cymwysterau

# Geiriad y gellid ei ddefnyddio mewn prosbectws

Mae cyfres newydd o gymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu wedi cael ei datblygu i ddiwallu anghenion sgiliau Cymru yn well ac i roi amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa i chi yn y sector.

## Symleiddio'r sefyllfa gymhleth o ran cymwysterau

Nod y newid yw symleiddio'r penderfyniadau cymhleth mae dysgwyr wedi'u hwynebu wrth ddewis o blith mwy na 400 o gymwysterau ym maes adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu yng Nghymru. Roedd yr holl gymwysterau yn cynnig clytwaith dryslyd o opsiynau sgiliau a chynnydd i ddysgwyr.

Mae City and Guilds ac EAL yn gweithio gyda chyflogwyr a chynrychiolwyr y sector, y cynlluniau cardiau sgiliau a'r corff gosod safonau i sefydlu darpariaeth cymwysterau newydd gydag opsiynau cynnydd clir i'ch paratoi ar gyfer y gweithle modern.



# Y cymwysterau

## Mae'r opsiynau galwedigaethol yn dechrau gyda chymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2). Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys dau faes crefft a sgiliau cyflogadwyedd.

Ar ôl cyflawni hyn, gallwch symud i faes crefft arbenigol ar Lefel 3 gyda chyflogwr fel rhan o brentisiaeth neu ddilyn y Cymhwyster Cynnydd i gryfhau'r grefft o'ch dewis.

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 |
|---|---|---|---|---|
| Opsiwn A<br>Dysgu'n llawn amser am flwyddyn cyn cael prentisiaeth | **Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu** | **Lefel 3 Adeiladu - yn eich dewis crefft i arbenigo ynddi (Cymhwyster prentisiaeth)** | | |
| | | **Lefel 3 Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu yn eich dewis crefft i arbenigo ynddi (Cymhwyster prentisiaeth)** | | |
| Opsiwn B<br>Dysgu'n llawn amser am ddwy flynedd cyn cael prentisiaeth | **Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu** | **Cymhwyster Cynnydd**<br>Mewn dewis crefft Adeiladau neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu | **Lefel 3 Adeiladu yn eich dewis crefft i arbenigo ynddi (Cymhwyster prentisiaeth)** | |
| | | | **Lefel 3 Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu yn eich dewis crefft i arbenigo ynddi (Cymhwyster prentisiaeth)** | |
| Opsiwn C<br>Dilyn y cymhwyster Craidd neu Sylfaen wrth ymgymryd â phrentisiaeth | **Cymhwyster Craidd neu Sylfaen a Lefel 3 Adeiladu (Cymhwyster prentisiaeth)** | | | |
| | **Cymhwyster Craidd neu Sylfaen a Lefel 3 Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Cymhwyster prentisiaeth)** | | | |

Hyd y Brentisiaeth

Gall hyd pob prentisiaeth amrywio, gan ddibynnu ar y llwybr crefft a ddewiswyd.

“Rydyn ni’n hyderus y bydd y cymwysterau newydd hyn yn rhoi set gadarn o sgiliau sy’n berthnasol a chyfredol i ddysgwyr a phrentisiaid.”

**Ifan Glyn, Uwch Gyfarwyddwr Hwb / Cyfarwyddwr Cymru, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr**

“Pan fydd rhywun yn dechrau gweithio i ni, mae angen iddyn nhw allu gweithio o’r cychwyn cyntaf – ac o edrych ar gynnwys y cymwysterau hyn, bydd y dysgwyr sy’n eu dilyn wir yn gallu gwneud hynny.”

**Richard Owen, Rheolwr Hyfforddi a’r Gweithlu, Jones Bros**

# Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

## Trosolwg o'r cymhwyster

Mae'r cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) wedi cael ei ddatblygu ar gyfer unigolion sy'n gweithio yn y sector neu sy'n bwriadu gweithio yn y sector. Fe'i hanelir at ddysgwyr 16+ oed. Gellir dilyn y cymhwyster naill ai fel rhaglen ddysgu amser llawn, dros flwyddyn gan amlaf, neu fel rhaglen ddysgu ran-amser fel rhan o brentisiaeth.

## Gofynion Mynediad

Bydd angen i chi fod wedi cyflawni Lefel 2 Sgiliau Hanfodol Saesneg a Mathemateg (neu gymhwyster cyfatebol) neu fod yn gweithio tuag at hynny. Nid oes gofynion mynediad ffurfiol eraill ar gyfer y cymhwyster hwn.

## Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

### Unedau crefft

Bydd dysgwyr yn dewis **dwy** uned grefft er mwyn treulio amser ychwanegol yn dysgu, a fydd yn cynnwys cynllunio, perfformio a gwerthuso tasgau cyffredin :

- **Gweithio gyda brics, blocs a cherrig**
- **Galwedigaethau crefftau coed**
- **Peintio ac addurno**
- **Plastro a systemau mewnol**
- **Plymio a gwresogi domestig**
- **Galwedigaethau toi**
- **Teilsio waliau a lloriau**
- **Systemau ac offer electro-dechnegol**
- **Gweithrediadau adeiladu a gwasanaethau peirianneg sifil**
- **Gweithrediadau offer**

### Unedau craidd

Byddwch yn cwblhau **chwe** uned 'graidd', sy'n cwmpasu:

- **Cyflwyniad i'r sectorau adeiladu a'r amgylchedd adeiledig**
- **Cyflogaeth a sgiliau cyflogadwyedd**
- **Iechyd a diogelwch**

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi i chi wybodaeth ragarweiniol a dealltwriaeth o:

- **Gylch bywyd yr amgylchedd adeiledig, y swyddi o fewn y sector, a'r gyd-ddibyniaeth rhwng pobl sy'n cyflawni'r swyddi hynny**
- **Sut i hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch eich hun a phobl eraill**
- **Sgiliau cyflogadwyedd sy'n berthnasol i waith yn y dyfodol**

Mae'r cymhwyster yn darparu digon o wybodaeth i symud ymlaen i brentisiaeth yn y sector yn eich dewis grefft.

Er mwyn cael gwaith fel crefftwr cymwysedig, byddai angen i chi ennill cymhwyster Lefel 3 fel rhan o brentisiaeth yn y grefft o'ch dewis.

# Cynnydd mewn Adeiladu (Lefel 2)

## Trosolwg o'r cymhwyster

Mae'r cymhwyster Cynnydd mewn Adeiladu wedi'i ddatblygu ar gyfer unigolion sy'n gweithio, neu'n bwriadu gweithio, yn y sector adeiladu. Mae wedi'i anelu at ddysgwyr sydd wedi cyflawni eu Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu ond sydd heb brentisiaeth eto.

## Gofynion mynediad

Bydd angen i chi fod wedi cyflawni eich Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) a bod yn gweithio tuag at eich Lefel 2 Sgiliau Hanfodol Saesneg a Mathemateg (neu gymhwyster cyfatebol).

## Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Byddwch yn dewis maes crefft o blith yr unedau sydd ar gael yn y maes adeiladu ac yn datblygu eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth ar gyfer y grefft honno.

### Unedau crefft

Byddwch yn canolbwyntio ar **un** grefft o'ch dewis chi. Meysydd crefft y gallai eich canolfan eu darparu:

- **Gosod brics**
- **Gwaith Coed Pensaernïol**
- **Gwaith Coed ar y Safle**
- **Gosod Fframiau Pren**
- **Peintio ac addurno**
- **Plastro Soled**
- **Töwr - Llechi a Theils**
- **Leinio Sych – Gosod**
- **Gweithrediadau Adeiladu – Adeiladu Cyffredinol**

### Unedau craidd

Byddwch hefyd yn cwblhau **tair** uned 'graidd' sy'n cwmpasu:

- **Cyflogaeth**
- **Sgiliau cyflogadwyedd**
- **Arferion adeiladu cyffredinol**

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at wella sgiliau cyn dechrau prentisiaeth.

Er mwyn cael gwaith fel crefftwr cymwysedig, byddai angen i chi ennill cymhwyster Lefel 3 fel rhan o brentisiaeth yn y grefft o'ch dewis.

# Cynnydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

## Trosolwg o'r cymhwyster

Mae'r Cymhwyster Cynnydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) wedi'i ddatblygu ar gyfer unigolion sy'n gweithio, neu'n bwriadu gweithio, yn y sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu. Mae wedi'i anelu at ddysgwyr sydd wedi cyflawni eu Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) ond sydd heb gyflogwr eto i barhau â Phrentisiaeth.

## Gofynion mynediad

Bydd angen i chi fod wedi cyflawni'r cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) a bod yn gweithio tuag at eich Lefel 2 Sgiliau Hanfodol Saesneg a Mathemateg (neu gymhwyster cyfatebol).

## Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Byddwch yn dewis maes crefft o blith yr unedau sydd ar gael ym maes peirianneg gwasanaethau adeiladu ac yn datblygu eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth ar gyfer y grefft honno.

### Unedau crefft

Byddwch yn canolbwyntio ar **un** grefft o'ch dewis chi. Meysydd crefft y gallai eich canolfan eu darparu:

- **Gosod systemau ac offer electro-dechnegol**
- **Plymio a gwresogi**

### Unedau craidd

Byddwch hefyd yn cwblhau **tair** uned 'graidd' sy'n cwmpasu:

- **Cyflogaeth**
- **Sgiliau cyflogadwyedd**
- **Arferion adeiladu cyffredinol**

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at wella sgiliau cyn dechrau prentisiaeth.

Er mwyn cael gwaith fel crefftwr cymwysedig, byddai angen i chi ennill cymhwyster Lefel 3 fel rhan o brentisiaeth yn y grefft o'ch dewis.

# Adeiladu Lefel 3 – Cymhwyster prentisiaeth

## Trosolwg o’r cymhwyster

Mae’r cymwysterau Adeiladu Lefel 3, o'u cymryd fel rhan o brentisiaeth, yn caniatáu i chi ddangos ystod eich gwybodaeth, eich sgiliau a’ch dealltwriaeth alwedigaethol mewn crefft adeiladu o’ch dewis chi.

Fe’u hanelir at ddysgwyr sydd un ai wedi ennill y cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2), neu a fydd yn cwblhau’r asesiadau a’r dysgu Sylfaen yn ystod eu prentisiaeth.

## Beth mae'r cymwysterau yn ei gwmpasu?

Byddwch yn dewis un arbenigedd ym maes adeiladu a yn datblygu eich gwybodaeth, eich sgiliau a’ch dealltwriaeth ar gyfer y grefft honno.

### Cymwysterau

Yr amrywiaeth o gymwysterau y gallai eich canolfan eu darparu:

- Gosod brics
- Gwaith coed pensaernïol
- Gwaith coed ar y safle
- Gosod fframiau pren
- Peintio ac addurno
- Teilsio waliau a lloriau
- Plastro
- Gwaith toi - llechi a theils
- Gweithrediadau offer
- Leinio sych
- Gweithrediadau sifil - gweithiwr tir

### Unedau craidd

Byddwch yn cwblhau **dwy** uned ‘graidd’ sy’n cwmpasu’r sector adeiladu ac arferion o fewn y sector yng Nghymru.

Ar ôl ei gwblhau, bydd y cymhwyster yn rhoi i chi’r sgiliau a’r wybodaeth sy’n ofynnol i allu gweithio o fewn y grefft o’ch dewis ledled y DU.

# Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 - Cymhwyster prentisiaeth

## Trosolwg o'r cymhwyster

Bydd y cymwysterau Lefel 3 Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu yn cael eu cymryd fel rhan o brentisiaeth. Maen nhw'n galluogi dysgwyr i ddangos ystod eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth alwedigaethol.

Bydd angen i chi un ai fod wedi ennill y cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2), neu byddwch yn cwblhau'r asesiadau a'r dysgu Sylfaen yn ystod eich prentisiaeth.

## Beth mae'r cymwysterau yn ei gwmpasu?

Byddwch yn dewis un arbenigedd ym maes peirianneg gwasanaethau adeiladu ac yn datblygu eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth ar gyfer y grefft honno.

### Cymwysterau

Yr amrywiaeth o gymwysterau y gallai eich canolfan eu darparu:

- **Gosod Offer Gwresogi ac Awyru**
- **Gwaith Crefft Gwresogi ac Awyru**
- **Plymio a Gwresogi**
- **Gosod Offer Electro-dechnegol**

### Unedau craidd

Byddwch hefyd yn cwblhau **dwy** uned 'graidd' sy'n cwmpasu'r sector peirianneg gwasanaethau adeiladu ac arferion o fewn y sector yng Nghymru.

Ar ôl ei gwblhau, bydd y cymhwyster yn rhoi i chi'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i allu gweithio o fewn y grefft o'ch dewis ledled y DU.

# Cysylltwch

I gael rhagor o wybodaeth sy'n cynnwys trosolwg, addasrwydd, strwythur, cynnydd a manylion asesu pob cymhwyster Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu sydd ar gael, ewch i

skillsforwales.wales/cy/cymwysterau

City & Guilds | eal